

Diwygiedig Cynllun 2018-2033 Datblygu Lleol

Rhagfyr 2018

Cyn Adneuo Ddrafft Strategaeth a Ffefrir
Profion Cadermid: Hunanasesiad



Cyflwyniad

Caiff y gofyn sylfaenol fod Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn 'gadarn' ei ragnodi yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ac fe'i hamlinellir yn y Polisi Cynllunio cenedlaethol. Fel rhan o'r broses o sefydlu cadernid, mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal hunanasesiad o gadernid ei GDLI ei hun. Yn hynny o beth mae'r ddogfen hon yn cynnig ail-wiriad wrth i'r Cynllun ddatblygu ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion paratoadol ac y bernir fod y cynllun yn bodloni'r 3 phrawf cadernid.

Caiff cadernid y CDLI ei asesu mewn archwiliad annibynnol gan Arolygydd Cynllunio. Bydd yr archwiliad yn asesu a gafodd gofynion paratoadol y Cynllun eu dilyn a bydd yn penderfynu a yw'n 'gadarn', hynny yw, ei fod yn bodloni pob un o'r 3 phrawf cadernid fel y'u nodir isod¹.

Mae Llawlyfr y CDLI Arg.2 (2015), wrth fanylu ar yr uchod, yn nodi cyfres o gwestiynau er mwyn helpu adnabod y materion hynny allai fod yn berthnasol o dan bob prawf cadernid.

Gofynion Paratoadol:

- A yw'r paratoi wedi cydymffurfio â'r gofynion gweithdrefnol cyfreithiol a rheoleiddiol?
(Rheoliadau CDLI, CIS, Rheoliadau AAS, AC, ARhC ac ati?)

Profion Cadernid:

Prawf 1: A yw'r cynllun yn cydweddu? (h.y. a yw'n amlwg bod y CDLI yn cyd-fynd â chynlluniau eraill?)

Cwestiynau

- A yw'n rhoi ystyriaeth i bolisi cenedlaethol a Chynllun Gofodol Cymru?
- A yw'n rhoi ystyriaeth i Nodau Llesiant?
- A yw'n rhoi ystyriaeth i Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru?
- A yw'n cyd-fynd â chynlluniau rhanbarthol, strategaethau a rhaglenni cyfleustodau?
 - A yw'n gydnaws â chynlluniau awdurdodau cyfagos?
 - A yw'n adlewyrchu'r Cynllun Integredig Sengl (CIS) neu Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (CRhPC)?

¹ Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 9 – paragraff 2.7.2

Prawf 2: A yw'r cynllun yn briodol? (h.y. a yw'r cynllun yn briodol i'r ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)

Cwestiynau

- A yw'n ardal benodol?
- A yw'n mynd i'r afael â'r materion allweddol?
- A yw'n cael ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn, gymesur a chredadwy?
- A ellir arddangos y rhesymwaith y tu ôl i bolisiâu'r cynllun?
- A yw'n ceisio diwallu anghenion a aseswyd ac yn cyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy?
- A yw'r weledigaeth a'r strategaeth yn gadarnhaol ac yn ddigon uchelgeisiol?
- A gafodd y dewisiadau 'gwirioneddol' eraill eu hystyried yn ddigonol?
- A yw'n rhesymegol, rhesymol a chytbwys?
- A yw'n gydlynol a chyson?
- A yw'n glir ac wedi'i ffocysu?

Prawf 3: A fydd y cynllun yn cyflawni? (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)

Cwestiynau

- A fydd yn effeithiol?
- A ellir ei weithredu?
- A oes cefnogaeth gan y darparwyr seilwaith perthnasol yn ariannol ac o ran gweithio o fewn amserlenni perthnasol?
- A fydd datblygu yn hyfyw?
- A ellir darparu'r safleoedd a ddyrannwyd ?
- A yw'r cynllun yn ddigon hyblyg? A oes trefniadau wrth gefn digonol?
- A yw'n cael ei fonitro'n effeithiol?'

Wrth gynnal yr hunanasesiad mae'r tablau canlynol yn defnyddio'r templed o gwestiynau a ddarperir ar gyfer pob prawf i ystyried cadernid y Cynllun hyd hynny. Dylid nodi fod yr hunanasesiad hwn yn adlewyrchu CDLI Diwygiedig Sir Gaerfyrddin fel y mae yng nghan y Drafft Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffefrir (a elwir o hyn ymlaen yn Ddrafft Strategaeth a Ffefrir). Yn hynny o beth caiff yr hunanasesiad ei ddatblygu ymhellach wrth i'r CDLI Diwygiedig fynd yn ei flaen trwy broses gwneud y Cynllun. I'r perwyl hwnnw daw natur rhai o'r ymatebion i'r cwestiynau a ofynnir trwy'r profion cadernid yn fwy diffiniadol eu cynnwys wrth symud i gamau diweddarach gwneud y Cynllun, ac yn enwedig felly'r CDLI Adneuo.

Gofynion Paratoadol:

- *A yw'r paratoi wedi cydymffurfio â'r gofynion gweithdrefnol cyfreithiol a rheoleiddiol?
(Rheoliadau CDLI, CIS, Rheoliadau AAS, AC, ARhC ac ati?).*

Ydy. Cafodd y Cynllun ei baratoi yn unol â'r gofynion gweithdrefnol. Dylid rhoi sylw arbennig i gyhoeddi'r Arfarniad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a gyhoeddwyd yn ddogfennau ategol i'r Drafft Strategaeth a Ffefrir.

Prawf 1: A yw'r cynllun yn cydweddu?

(h.y. a yw'n amlwg bod y CDLI yn cyd-fynd â chynlluniau eraill?)

Ydy. Cafodd y Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffefrir ei pharatoi gan roi ystyriaeth lawn i'r cynlluniau a'r strategaethau perthnasol, tra'n cydnabod y bydd angen iddo ymateb a datblygu wrth iddo symud trwy ei broses paratoadol.

Lle'n berthnasol, caiff y cyd-destun cenedlaethol, rhanbarthol a lleol (gan gynnwys rhai ardaloedd cyfagos) eu nodi yn y Strategaeth a Ffefrir ond hefyd yn adroddiad yr Adolygiad a phapurau Testun ac Adroddiad Cwmpasu AC/AAS ac ati.

Mae'r Adroddiad Cwmpasu AC/AAS yn adolygu'r cynlluniau a pholisïau perthnasol ar lefelau rhyngwladol/Ewropeaidd, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol er mwyn rhoi ystyriaeth i'r berthynas rhwng y CDLI a pholisïau, cynlluniau a rhaglenni eraill (PCRh) ac amcanion cynaliadwyedd. Mae hyn yn adnabod goblygiadau o ran y CDLI.

Caiff dylanwad yr uchod ei adlewyrchu hefyd wrth adnabod materion allweddol i Sir Gaerfyrddin. Maes o law cânt eu hadlewyrchu trwy gydol y Strategaeth a Ffefrir ac fe'u defnyddiwyd wrth lunio'r weledigaeth, yr amcanion strategol a'r polisïau strategol.

A yw'n rhoi ystyriaeth i bolisi cenedlaethol a Chynllun Gofodol Cymru?

Ydy. Yng nghyd-destun y diweddariad o Gynllun Gofodol Cymru (2008), mae darpariaethau'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir yn cydnabod y rôl y mae Sir Gaerfyrddin yn ei chyflawni yn y 3 ardal ofodol yn y Sir. Mae'n ceisio adlewyrchu ei chynnwys tra'n cydnabod amrywiaeth y Sir a'i phwysigrwydd strategol o fewn y rhanbarth.

Wrth osod sail i'r hierarchaeth aneddiadau mae'r Papur Pwnc ar rôl a swyddogaeth yn myfyrio ar gynnwys a statws aneddiadau yng nghyd-destun Cynllun Gofodol Cymru wedi'i ddiweddarau.

Caiff lleoliad Sir Gaerfyrddin ynghanol ei rhanbarth ei gydnabod ac mae'n elfen bwysig o'r Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffefrir.

A yw'n rhoi ystyriaeth i Nodau Llesiant?

Ydy. Mae'r Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffefrir yn rhoi ystyriaeth lawn i ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac yn cyfeirio'n llawn at y nodau llesiant. Cafodd yr angen i hyrwyddo a chydnabod llesiant ei blethu i'r sgyrsiau cynnar a gafwyd wrth baratoi'r Cynllun gyda nifer o randdeiliaid gwahanol. Trwy adnabod materion o bwys (y manylwyd arnynt yn y Papur Pwnc ar Faterion, Gweledigaeth ac Amcanion Strategol), mae'r Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffefrir yn eu hail-gysylltu â'r nodau llesiant cenedlaethol ac yn eu grwpio o dan bob pennawd.

Caiff thema llesiant a darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 eu hadlewyrchu yn y defnydd a wneir o nodau llesiant lleol wrth lunio'r amcanion strategol a'r polisiau strategol. I'r perwyl hwnnw, mae Atodiad 1 y Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffefrir yn ceisio asesu pob polisi o ran ei gydnawsedd gyda'r Nodau Llesiant Lleol, gan gysylltu'n ôl i'r Amcan Strategol perthnasol sydd yn ei dro yn cysylltu'n uniongyrchol yn ôl i'r materion a adnabuwyd.

O ran y CDLI a fabwysiadwyd ar hyn o bryd, mae'r Adroddiadau Monitro Blynyddol yn cynnal dadansoddiad cydnawsedd Amcanion/Nodau Llesiant². Er ei fod yn adolygiad cychwynnol ar lefel uchel, mae'n creu gwaelodlin ddefnyddiol o dystiolaeth fel rhan o broses Adolygiad y CDLI.

A yw'n rhoi ystyriaeth i Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru?

Ydy. Bydd y polisiau strategol, ynghyd â'r polisiau manwl fydd yn dilyn, yn sicrhau bod y CDLI yn cydweddu'r Cynllun Morol.

Wrth gydnabod yr heriau sylfaenol y mae newid hinsawdd yn eu cynnig, mae Polisi Strategol SP15 yn cydweddu'r Cynllun Morol ar faterion yn cynnwys perygl llifogydd, ac mae SP13 ac SP11 yn ymateb i faterion fel y gallu i addasu a seilwaith gwyrdd a chysylltedd.

A yw'n gydnaws â chynlluniau rhanbarthol, strategaethau a rhaglenni cyfleustodau?

Ydy. Paratowyd y Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffefrir yng nghyd-destun cynlluniau, strategaethau a rhaglenni cyfleustodau rhanbarthol perthnasol. Bydd y rhain yn cyfrannu ymhellach at ac yn llywio'r gwaith o baratoi'r polisiau a dyraniadau defnydd tîr perthnasol fel rhan o'r CDLI Adnau.

² Adroddiad Monitro Blynyddol 2017 – 2018 (<https://www.sirgar.llyw.cymru/media/1216077/annual-monitoring-report-17-18-welsh-web-003.pdf>)

Gwneir cyfeiriad penodol at bwysigrwydd Bargen Ddinesig Bae Abertawe ar gyfer y rhanbarth. Yn hyn o beth, mae'r Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffeirir wedi ffactora ei hystyriaethau ymhob agwedd ar baratoi'r Cynllun, gan gydnabod ei phwysigrwydd yn economaidd a chymdeithasol. Cyfeirir at bolisi strategol SP5 sy'n dynodi'r ddau brif brosiect yn yr ardal yn safleoedd strategol. Gwneir cyfeiriad penodol ati hefyd yn y Weledigaeth a'r Amcanion Strategol.

A yw'n gydnaws â chynlluniau awdurdodau cyfagos?

Ydy. Mae'r gwaith o baratoi'r Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffeirir yn adlewyrchu'r cyswllt agos â'r holl awdurdodau cyfagos (ynghyd â sefydliadau hanfodol eraill), boed yn unigol a fesul pwnc, ond hefyd trwy fframweithiau rhanbarthol. Yr awdurdodau cyfagos perthnasol yw:

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog;
- Cyngor Sir Ceredigion;
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot;
- Cyngor Sir Penfro;
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro; a
- Chyngor Sir Powys.

Fel rhan o gydnabod gwerth gweithio gydag awdurdodau cyfagos, ac wrth ymateb i bwyslais yr Ysgrifennydd Cabinet ar gydweithio, rydym yn gweithio ar nifer o ymgymeriadau tystiolaethol. Mae'r rhain yn cynnwys Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol gyda Chyngor Sir Penfro, Asesiad Marchnad Dai Rhanbarthol, Astudiaeth Gyflogaeth Rhanbarthol a Model Hyfywedd Tai Rhanbarthol. Bydd natur y cydweithio rhwng awdurdodau a'r modd y caiff ffyrdd o weithio eu rhannu, gan gynnwys meysydd polisi thematig cymharol, yn cael ei ddatblygu wrth i broses baratoadl y Cynllun fynd yn ei blaen.

O ran materion mwynau a gwastraff, mae gan Sir Gaerfyrddin nifer o gytundebau lefel gwasanaeth gydag awdurdodau ar draws y rhanbarth a thu hwnt. Mae hefyd yn gyfrifol am gydlynw a chynnal yr Adroddiad Monitro Gwastraff Rhanbarthol ar gyfer De Orllewin Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.

Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r pwyslais ar weithio'n rhanbarthol yng ngoleuni darpariaethau i'r dyfodol ynghylch Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS) a chynnwys y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) wrth iddo ymddangos.

A yw'n adlewyrchu'r Cynllun Integredig Sengl (CIS) neu Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (CRhPC)?

Roedd gan Sir Gaerfyrddin ddogfen integredig yn 2011 ar ffurf y Strategaeth Gymunedol Integredig (SGI) ar gyfer Sir Gaerfyrddin 2011-16. Gan gydnabod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, aeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ati i weithio ar y Cynllun Llesiant a gymeradwywyd yn 2018. Hefyd, mae gan y Cyngor amcanion llesiant a gynhwysir yn ei strategaeth gorfforaethol.

Mae'r Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffefrir yn adeiladu ar ymrwymiad y Cyngor a'r BGC ynghylch llesiant fel y'u hamlinellir yn y strategaeth gorfforaethol a'r Cynllun Llesiant.

Prawf 2: A yw'r cynllun yn briodol? (h.y. a yw'r cynllun yn briodol i'r ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)

Ydy. Mae'r gwaith o lunio'r Strategaeth Cyn-Adneuo yn seiliedig ar dystiolaeth ac ar adnabod Materion, Gweledigaeth, Amcanion Strategol a Pholisiau Strategol ardal benodol.

Rhodddwyd y pwyslais ar gynnal cyfres o sgysiau am y math o sir yw Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd a'r math o sir yr hoffai rhanddeiliaid iddi fod. Y sail ar gyfer cynnal y trafodaethau hyn oedd y ffaith fod proses "Y Sir Gâr a Garem" wedi cael ei chynnal yn barod yn rhan o'r gwaith o baratoi Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae'r Cynllun Llesiant, amcanion llesiant a strategaethau corfforaethol lleol wedi gosod Sylfaen ar gyfer Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffefrir sy'n ymwneud yn benodol â Sir Gaerfyrddin yn hytrach na bod yn generig. Mae datblygu ymwybyddiaeth ofodol ymhlyg, yn enwedig felly o ran cydnabod y gwrthgyferbyniad gwledig-trefol yn y Sir. Mae'r Weledigaeth yn ceisio creu'r cyd-destun ar gyfer dynesiad "Un Sir Gâr" ac mae'n cyflawni rôl unoliaethol yn hynny o beth.

Darn allweddol o dystiolaeth ar gyfer cysylltu'r materion, y weledigaeth a'r amcanion gyda'r strategaeth dwf ac ofodol yw'r papur testun ar rôl a swyddogaeth. Mae hwn yn gyswllt hollbwysig rhwng y darnau hyn o waith trwy ddarparu cyd-destun gofodol, ac mae felly'n arddangos ffordd nodedig leol o weithio.

Cafodd tystiolaeth bellach, gan gynnwys gwaith ar Rôl a Swyddogaeth aneddiadau a demograffeg poblogaeth ac aelwydydd ei chasglu a'i chyhoeddi gyda'r Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffefrir.

A yw'n ardal benodol?

Ydy. Mae'r Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffefrir hon yn gynnyrch ymgysylltu effeithiol a meithrin consensws. Ers cychwyn yr adolygiad ym mis Ionawr 2018, fe fu:

- 2 gyfarfod o Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol y CDLI;
- Gweithdy / seminar ar y CDLI i Gynghorau Tref a Chymuned;
- 2 gyfarfod o'r Fforwm Datblygwyr;
- Nifer o gyfarfodydd a chyflwyniadau gyda grwpiau gwleidyddol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar-lein er mwyn cyfrannu at adnabod materion, gweledigaeth ac amcanion y Cynllun, a chynhaliwyd ymgynghoriad hefyd ar Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaliadwyedd.

O ran Aelodau Etholedig, cafwyd mewnbyn trawsbleidiol i'r gwaith o lunio'r Strategaeth hon. Cynhaliwyd saith cyfarfod o Banel Ymgynghorol y CDLI er mis Tachwedd 2017. Mae'r Panel hwn yn cynnwys Aelodau Etholedig a'i brif bwrpas yw cymryd perchnogaeth wleidyddol o'r CDLI Diwygiedig.

Cafodd y materion eu hadnabod mewn ffordd dryloyw. Dylid nodi y cawsant eu grwpio o dan y nodau llesiant cenedlaethol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu fframio o fewn cyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Golyga hynny y gellir cynnwys dealltwriaeth o faterion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn y Cynllun ac y gellir plethu llesiant i mewn i'r Cynllun o'r cychwyn cyntaf.

Mae'r Papur Pwnc ar Faterion, Gweledigaeth ac Amcanion yn adnabod o ble y deilliodd y materion. Mae'r prif ffynonellau yn cynnwys adolygiadau polisi, deilliannau adroddiad adolygu'r CDLI, deilliannau o weithdai cynghorau tref a chymuned, deilliannau o'r fforwm rhanddeiliaid allweddol, ymgysylltu â chynghorwyr sir, adran "cipolwg" y cynllun llesiant, drafft arfarniad cynaliadwyedd / adroddiad cwmpasu'r asesiad amgylcheddol strategol ac ymgynghoriad cyhoeddus. Cyfeirir hefyd at y corff arall o dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r Strategaeth - yn bennaf felly'r papur testun ar rôl swyddogaeth.

A yw'n mynd i'r afael â'r materion allweddol?

Ydy. Mae'r amcanion strategol yn cynnwys adran sylwadau sy'n eu cysylltu'n ôl i'r prif faterion y bwriedir iddynt fynd i'r afael â nhw. Mae proses o adolygu dadansoddiad SMART yn ychwanegu ymhellach at hynny.

Hefyd, ac fel y nodwyd uchod, rhoddwyd y pwyslais ar geisio seilio'r drafodaeth ar y materion hynny a ymddangosodd yn barod trwy'r cynllun llesiant, gyda'r bwriad o ddeall eu perthnasedd o ran defnyddio tir ac a ellid mynd i'r afael â nhw trwy'r system gynllunio.

Mae diagram allweddol yn dangos llif y broses rhwng adnabod y materion ac ymlaen at y weledigaeth ac yna'r amcanion a'r polisiau strategol fydd yn mynd i'r afael â'r materion o bwys.

A yw'n cael ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn, gymesur a chredadwy?

Ydy. Mae'r darnau amlycaf o dystiolaeth (yn ogystal â'r gwaith meithrin consensws a'r sgysiau â rhanddeiliaid a gynhaliwyd ac a ddisgrifiwyd uchod) sy'n sail i'r Strategaeth yn cynnwys:

- Mabwysiadu 3 adroddiad Adolygiad Monitro Blynyddol o'r CDLI ers ei fabwysiadu yn 2014;
- Adroddiad Adolygu'r CDLI;
- Demograffeg Poblogaeth ac Aelwydydd – cynhyrchwyd gan Edge Analytics;
- Papur Testun ar Derfynau Datblygu;
- Papur Testun ar Faterion, Gweledigaeth ac Amcanion;
- Papur Testun ar Rôl a Swyddogaeth;
- Papur Testun ar Ddewisiadau Gofodol;
- Papur Testun ar Ragfynegiadau Poblogaeth ac Aelwydydd;
- Adroddiad Cwmpasu AC/AAS;
- Adroddiad AC/AAS Cychwynnol;
- Adroddiad Sgrinio Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd.

Yn ogystal â'r uchod ceir nifer o ddogfennau a gwaelodlinau tystiolaethol eraill, gan gynnwys yr Adolygiadau Tir Cyflogaeth blynyddol, Astudiaeth Fanwerthu Sir Gaerfyrddin ac Archwiliadau Canol Trefi.

Mae astudiaethau a darnau eraill o dystiolaeth yn cael eu paratoi a'u comisiynu ar hyn o bryd, gan gynnwys rhai ar lefel leol a rhanbarthol. Gwneir rhagor o waith yn ystod y broses o baratoi'r CDLI Diwygiedig yn ôl y galw a'r angen.

A ellir arddangos y rhesymwaith y tu ôl bolisiau'r cynllun?

Gellir. Mae Materion, Gweledigaeth, Amcanion, Strategaeth a Pholisïau Strategol y Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffeirir wedi elwa o dystiolaeth, ymgysylltu a chynlluniau a strategaethau eraill. Manylir ar y polisïau trwy gyfrwng testun atodol ac fe'u cysylltir â'r nodau llesiant lleol ac yn eu tro ag amcanion y CDLI, materion allweddol a'r nodau llesiant cenedlaethol.

A yw'n ceisio diwallu anghenion a aseswyd ac yn cyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy?

Ydy. Mae'r Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffeirir yn deillio o (ac yn seiliedig ar) dystiolaeth a gaiff ei datblygu ymhellach wrth i'r Cynllun symud trwy ei brosesau paratoadol.

Mae sicrhau datblygu cynaliadwy yn un o elfennau canolog y Cynllun. Dylid nodi fod proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol (AC/AAS) wedi bod yn seinfwrdd amhrisiadwy wrth baratoi'r Strategaeth a Ffeirir.

Mae gan yr AC/AAS rôl anhepgor ac ailadroddol wrth baratoi CDLI. Yn hynny o beth, mae'r defnydd ohono wrth brofi neu fesur perfformiad y CDLI o'i gychwyn

cyntaf ac ymlaen at baratoi'r CDLI Adneuol yn adlewyrchiad o'r adborth ailadroddol rhwng yr AC a'r CDLI wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

Cafodd hierarchaeth aneddiadau ei datblygu gan roi ystyriaeth i rinweddau cynaliadwyedd perthnasol pob anheddiad sy'n diffinio aneddiadau a sut y gallant gyfrannu yn eu cymunedau ehangach. Mae'r hierarchaeth hon yn cydnabod y gwasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael, materion hygyrchedd ac ystyriaethau eraill. Dylid cyfeirio at y Papur Testun ar Rôl a Swyddogaeth.

A yw'r weledigaeth a'r strategaeth yn gadarnhaol ac yn ddigon uchelgeisiol?

Ydy. Mae'r weledigaeth yn ceisio adlewyrchu'r strategaeth gorfforaethol sy'n seiliedig ar y cynllun llesiant yn ogystal â'r blaenoriaethau adfywio allweddol hynny yn y Sir – yn bennaf felly ar ffurf y Strategaeth Drawsnewid.

Mae'r weledigaeth hefyd yn cyflwyno'r fframwaith ar gyfer cydnabod y Fargen Ddinesig a'r cyfleoedd posib y mae hynny'n eu cynnig i Sir Gaerfyrddin fel sir uchelgeisiol a chanddi gysylltiadau da.

Wrth adeiladu ar y weledigaeth, mae'r amcanion strategol yn cynnwys adran sylwadau sy'n edrych ar i ba raddau y maent yn ddigon uchelgeisiol a dyheadol.

Cyfeirir at y Papur Pwnc ar Faterion, Gweledigaeth ac Amcanion.

A gafodd y dewisiadau 'gwirioneddol' eraill eu hystyried yn ddigonol?

Do. Bernir fod y Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffefrir yn realistig a phriodol gan y cafodd ei datblygu ar sail ac o nifer o ddewisiadau amgen 'gwirioneddol'.

Cafodd nifer o ddewisiadau twf a gofodol amgen gwahanol eu hystyried a rhoddir sylw pellach iddynt yn y papurau testun ar Ddewisiadau Twf Strategol a Dewisiadau Gofodol.

Arweiniodd asesiad o'r Dewisiadau Gofodol at adnabod dewis cymysgryw yn cynnwys agweddau o ddewisiadau eraill a gyflwynwyd i'w hystyried. Deilliodd y dewis cymysgryw hwn allan o waith ymgysylltu, yn bennaf felly y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol. Cafodd y Dewisiadau Twf eu hystyried yn y modd yma hefyd ac maent yn seiliedig ar dystiolaeth arbenigol.

Cafodd y Dewisiadau Strategol eu hystyried hefyd trwy broses yr AC/AAS.

A yw'n rhesymegol, rhesymol a chytbwys?

Ydy. Deilliodd y Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffefrir o ddealltwriaeth glir o'r materion o bwys, yn genedlaethol ac yn allweddol felly y rhai sy'n effeithio ar Sir Gaerfyrddin. Mae'n cymryd golwg gytbwys o'r sir o ran cynllunio defnydd tir. Lle'n briodol, mae'n integreiddio gyda chynlluniau a strategaethau tra'n sicrhau ei bod yn adlewyrchu polisi cenedlaethol a'r angen am Gynllun cynaliadwy a chyflawnadwy.

Deilliodd y Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffeirir o waith ymgysylltu, ac o'r herwydd mae'n rhesymegol a rhesymol ac yn seiliedig ar ragolwg cytbwys.

A yw'n gydlynol a chyson?

Ydy. Mae'r Cynllun yn bodloni'r gofynion ynghylch cydlynedd a chysondeb fel y gwelir yn y llif rhesymegol o'r materion i'r polisiâu strategol.

Mae'r gwaith o baratoi'r Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffeirir wedi cynnig cyfle i werthuso nifer o ddewisiadau strategol amgen. Rhoddwyd ystyriaeth lawn i bob dewis – trwy'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol ac eraill.

Mae'r Papur Pwnc ar Faterion, Gweledigaeth ac Amcanion wedi cyfrannu at y gwaith o baratoi'r Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffeirir. Mae'r Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffeirir yn cynnig traws gyfeiriadau clir a thryloyw rhwng y materion, yr amcanion strategol a'r 18 polisi strategol.

Gwelwyd cysylltiadau amlwg gyda'r Cynllun Llesiant a nodau llesiant y Cyngor, ac mae'r CDLI wedi'i alinio'n gyda blaenoriaethau corfforaethol o'r fath.

Mae'r Drafft Strategaeth a Ffeirir wedi esblygu trwy ymgysylltu, gyda'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol ac eraill.

A yw'n glir ac wedi'i ffocysu?

Ydy. Cyflwynir y Strategaeth a Ffeirir Cyn-Adneuo mewn ffordd glir a rhesymegol, sy'n caniatáu dealltwriaeth glir o'i ffurf, ond hefyd yn allweddol felly ei phwrpas craidd a'i hamcanion. Mae'n cynnig ffocws clir ar ei phwrpas, ac mae naratif rhesymegol yn gosod sail i'w helfennau amrywiol, o adnabod materion ac ymlaen at sut yr eir i'r afael â nhw fel rhan o'i dynesiad strategol.

Prawf 3: A fydd y cynllun yn cyflawni? (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)

Bydd, gweler yr atebion isod.

A fydd yn effeithiol?

Bydd. Deilliodd amcanion y Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffeirir o ddealltwriaeth o faterion perthnasol ac anghenion Sir Gaerfyrddin ac o gorff tystiolaeth cadarn, rhesymegol a chydnerth. Mae'r strategaeth yn ceisio integreiddio ac adlewyrchu cynlluniau a strategaethau eraill fel rhan o ffordd integredig o gyflawni, gan wneud yn fawr o'i chyfleoedd i fod yn effeithiol wrth ei gweithredu.

Caiff yr hunanasesiad hwn ei ddatblygu ymhellach er mwyn ehangu effeithiolrwydd y Cynllun wrth iddo symud trwy'r broses baratoadol ac wrth i'r polisiâu penodol a'r dyraniadau safle benodol gael eu datblygu.

A ellir ei weithredu?

Gellir. Caiff y Cynllun ei baratoi gyda'r bwriad clir y dylai fod yn weithredadwy ac y dylid cyflawni ei bolisiau a chynigion o fewn cyfnod y Cynllun.

Mae'r Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffeirir yn cyflwyno fframwaith gofodol cyflawnadwy a thwf strategol sy'n seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd ac mae'n ymateb i anghenion cymunedau Sir Gaerfyrddin. Bydd y polisiau a'r cynigion (yn strategol ac yn y pen draw yn benodol o fewn y CDLI Adneuo i'r dyfodol) yn darparu'r fframwaith ar gyfer cyflawni amcanion y Cynllun a chynnal y broses o wneud penderfyniadau.

Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI Adneuo caiff fframwaith monitro effeithiol a phriodol ei ddatblygu a'i gynnwys yn y Cynllun, a bydd yn gosod Sylfaen ar gyfer llunio'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB).

Yr AMB fydd y prif ddull o fesur ac asesu'r cynnydd wrth weithredu polisiau a chynigion y CDLI Diwygiedig.

A oes cefnogaeth gan y darparwyr seilwaith perthnasol yn ariannol ac o ran gweithio o fewn amserlenni perthnasol?

Oes. Mae darparwyr seilwaith yn gydran bwysig wrth ddatblygu'r CDLI ac maent yn ymgynghorai allweddol. Yn hynny o beth maent a byddant yn parhau i fod yn ymgysylltiedig trwy gydol y broses o lunio'r Cynllun. Pwysig hefyd yw nodi y cynhelir ymgynghoriad wrth baratoi'r CDLI Adneuo i sicrhau bod tystiolaeth lawn fod y Cynllun yn cael ei gyflawni.

Dylid nodi fod cynrychiolwyr cyrff seilwaith fel Dŵr Cymru Welsh Water yn aelodau o'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol.

A fydd y datblygu yn hyfyw?

Bydd. Bydd yr angen i unrhyw ddatblygu fod yn hyfyw yn agwedd bwysig wrth baratoi'r Cynllun, o ddatblygu tystiolaeth i'r dyfodol ac ymlaen i adnabod safleoedd neu ddatblygu polisiau penodol.

Mae gwaith yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ar lefel ranbarthol i greu methodoleg gadarn a chyson ar gyfer asesu hyfywedd ar draws awdurdodau yn y rhanbarth. Ychwanegir at y gwaith hwn yn ôl y galw i sicrhau bod unrhyw hyfywedd yn rhoi ystyriaeth lawn i amgylchiadau lleol a bod goblygiadau hyfywedd ar botensial datblygiad yn cael eu deall yn llawn ac y cynigir tystiolaeth gadarn o hynny.

A ellir darparu'r safleoedd a ddyrannwyd?

Gellir. Ac eithrio dau Safle Strategol, nid yw'r Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffeirir yn cyfeirio at ddyraniadau penodol. Caiff dyraniadau eu hadnabod yn rhan o'r CDLI Adneuo a chynhwysir tystiolaeth o'u cyflawnadwyedd yn hynny o beth.

Mae'r safleoedd strategol a ddynodir yn y Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffefrir yn rhai o arwyddocâd rhanbarthol. Maent yn rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe ac mae'r naill a'r llall yn cymryd camau breision o ran eu cyflawni. O ran Yr Egin yng Nghaerfyrddin, cafodd rhan o'r ganolfan hon ei chwblhau'n ddiweddar, ac yma fydd pencadlys newydd S4C. Mae'r Pentref Iechyd a Gwyddorau Bywyd yn Llanelli yn datblygu, ac mae'r cais cynllunio yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

A yw'r cynllun yn ddigon hyblyg? A oes trefniadau wrth gefn digonol?

Oes. Mae'r gwaith o baratoi'r Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffefrir wedi ceisio adlewyrchu'r angen am hyblygrwydd. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach fel rhan o'r CDLI Adnau er mwyn cynnig fframwaith sy'n gallu ymateb yn ôl y galw os yw amgylchiadau'n newid.

Mae adnabod y gofyniad aelwydydd wedi ymgorffori nifer o ragdybiaethau, gan gydnabod agweddau penodol o Sir Gaerfyrddin – gan gynnwys ei lefelau tai gweigion. Mae'r Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffefrir wrth weithredu ar y gofyniad hwn, wedi cynnwys lefel wrth gefn briodol o 6%.

A yw'n cael ei fonitro'n effeithiol?

Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI Adneuo caiff fframwaith monitro effeithiol a phriodol ei ddatblygu a'i gynnwys yn y Cynllun, a bydd yn gosod sylfaen ar gyfer llunio'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB).

Yr AMB fydd y prif ddull o fesur ac asesu'r cynnydd wrth weithredu polisiau a chynigion y CDLI Diwygiedig.

Nid yw'r Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffefrir yn cynnwys fframwaith monitro.